Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board

Ionawr 2024

**CWBL GYFRINACHOL A PHREIFAT**

Annwyl Gydweithiwr,

**Practis Meddyg Teulu a Reolir gan y Bwrdd Iechyd – Practis Meddygol Aber-big, Dwyrain Blaenau Gwent**

Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol bod Practis Meddygol Aber-big wedi cael ei reoli'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o'r 1af o Ebrill 2018 yn dilyn ymadawiad y cyn Bartneriaid Meddygon Teulu.

Yn dilyn ystyriaeth ddiweddar gan Dîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd, cytunwyd y dylid hysbysebu Practis Meddygol Aber-big gyda'r bwriad o ddychwelyd y practis i statws Contractwr Annibynnol. Yn unol â'r Broses Practis Gwag, gosodwyd hysbyseb yn y British Medical Journal (BMJ) ac fe rannwyd yr hysbyseb gyda phob meddygfa o fewn y Bwrdd Iechyd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau oedd 24ain o Dachwedd 2023. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd un achos busnes. Fe'i rhoddwyd ar y rhestr fer ac fe'u gwahoddwyd i gyfweliad ar 11eg o Ragfyr 2023.

Yn seiliedig ar ganlyniad y cyfweliad, penderfynodd y Panel fod Partneriaeth Meddygon Teulu Dr J Allinson a Dr J Ahmed wedi rhoi sicrwydd bod ganddynt ddigon o gapasiti i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion Practis Meddygol Aber-big

Felly, rwy'n falch o gadarnhau, yn dilyn ymgyrch recriwtio gadarn a chadarnhad gan Bwyllgor Gweithredol Aneurin Bevan, fod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r contract ar gyfer rheoli a darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda Phractis Meddygol Aber-big ar

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH
Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH
Tel: 01495 241200

**Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan**
**Aneurin Bevan Health Board is the operational name of Aneurin Bevan Local Health Board**

hyn o bryd, i Dr Allinson a Dr Ahmed. Bydd y contract yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2024.

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol o ran sefydlogrwydd hirdymor y ddarpariaeth o Wasanaethau Meddygol Cyffredinol yn ardal Dwyrain Blaenau Gwent.

Bydd meddygon a staff Practis Meddygol Aber-bîg yn parhau i ddarparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i'r cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r practisrhwng nawr a 31ain o Fawrth 2024, a bydd yr holl staff a gyflogir yn uniongyrchol yn ddarostyngedig i hawliau TrosglwyddoYmgymeriadau Hawliau Diogelu Cyflogaeth (TUPE). Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda'r partneriaid meddygon teulu newydd i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu trosglwyddo'n ddi-drafferth.

Gallaf eich sicrhau nad oes angen i gleifion wneud dim. Byddant yn cael eu cofrestru'n awtomatig gyda'r Contractwr Meddygon Teulu newydd ar y 1af o Ebrill 2024.

Byddaf yn ysgrifennu at y cleifion maes o law, i roi gwybod iddynt am y canlyniad ac i gadarnhau sut y bydd modd iddynt gael mynediad at wasanaethau o'r 1af o Ebrill 2024 ymlaen. Byddem yn hynod ddiolchgar pe byddai modd i chi gadw **manylion y llythyr hwn yn gyfrinachol nes y byddaf wedi ysgrifennu at y cleifion**.

Rydym yn sylweddoli y gallai'r newidiadau yma beri gofid i rai cleifion, gellir cyfeirio unrhyw bryderon neu ymholiadau i'r Tîm Gofal Sylfaenol ar (01495) 241293 neu 241258.

Rwy'n gobeithio eich bod yn deall mai ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gan bob claf fynediad at wasanaethau meddygol cyffredinol o ansawdd da, a thrwy wneud y newidiadau hyn, gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bob claf.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r tîm Gofal Sylfaenol ar (01495) 241293 neu 241258.

Yr eiddoch yn gywir,



Lloyd Hambridge
**Cyfarwyddwr Adrannol**
**Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol**